**Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 15fed Chwefror 2024 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Robert Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans, Eirlys James-Evans, Alwen Thomas a Ray Williams.
Cynghorydd Sir Marc Davies.
Clerc, Denfer Morgan

**170 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Arwel Jones, Tina Jones ac Iwan Thomas am fethu bod yn bresennol yn y cyfarfod

**171 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11eg Ionawr 2024.

**172 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

Cofnod 164 – y Cyfarfod Ymgynghorol gyda'r Cyngor Sir. Adroddodd y Clerc y gwybodaeth a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir ei fod yn gofyn i'r cynghorau tref gymryd cyfrifoldeb am gynnal gwasanaethau fel darparu toiledau, glanhau strydoedd a thorri porfa gan fod cynigion i'w hepgor yn ei Gyllideb. Nodwyd nad oedd y cynigion hyn yn effeithio'r Cyngor hwn.

**173 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** talu'r canlynol:

Neuadd Bentref Ciliau Aeron (Cyfarfodydd 2021-23) - £120
Cyngor Sir Ceredigion (Cyn-cais Cynllunio'r Fynwent) - £250
Elfed Jenkins (Adnewyddu Cynnal y Wefan) - £289.02

**174 Cais am Gymorth Ariannol**

Rhoddwyd ystyriaeth i gais Pwll Nofio Aberaeron a'r Cylch am gymorth ariannol a **PHENDERFYNWYD** cyfrannu £200.

**175 Mynwent Eglwys Cilcennin**

**PENDERFWYNWYD:**

i) nodi na dderbyniwyd gwybodaeth bellach oddi wrth Awdurdodau'r Eglwys; a

ii) nodi fod y cyn-cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir.

**176 Adeilad Ysgol Cilcennin**

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi cysylltu gyda Cilcennin Cyntaf ynghylch y penderfyniad i waredu'r adeilad a bod y gymdeithas honno wedi cytuno mabwysiadu cynllun i brynu ac adfywio'r adeilad ar gyfer y gymuned.

**177 Unrhyw Fater Arall**

Gofynwyd eto i'r Clerc a'r Cynghorydd Marc Davies ddilyn i fyny yr angen i drwsio tyllau yn y ffyrdd yn gyffredinol ac yn enwedig ar y tro ar yr allt yn arwain at y Bont Newydd a ger Tanyrallt.

Daeth y cyfarfod i ben am 8:00pm